



Croeso i Mencap!

Rydych chi'n darllen hwn oherwydd bod gennych chi aelod o'ch teulu neu ffrind sy'n cael mynediad at un o'n gwasanaethau yn barod neu sy'n byw o fewn un ohonyn nhw'n barod neu oherwydd eich bod yn ystyried hyn ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw teuluoedd a ffrindiau i bobl ac rydyn ni hefyd yn gwybod ein bod wir yn 'Well Gyda'n Gilydd' pan ddaw hi'n fater o'u cefnogi i fyw bywydau gwerth chweil.

Pecyn gwybodaeth 'Gwell Gyda'n Gilydd' Mencap ar gyfer teuluoedd a ffrindiau

Rydych chi wedi cael y pecyn gwybodaeth hwn fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau eich bod yn cael eich cynnwys ac yn cael gwybodaeth am y pethau sy'n bwysig i chi. Mae pecyn gwybodaeth 'Gwell Gyda'n Gilydd' yn cynnwys gwybodaeth am Mencap – gan gynnwys y ffordd rydyn ni'n gweithio gyda'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi a'r pwysigrwydd o ddatblygu a chynnal perthynas gref â'u teulu a'u ffrindiau.

I'w gwneud hi'n haws cael gafael ar becyn 'Gwell Gyda'n Gilydd' gellir dod o hyd iddo hefyd ar-lein unrhyw adeg, yn www.mencap.org.uk

Ynglŷn â Mencap

Fel elusen sydd wedi ymrwymo i newid byd i bobl ag anabledd dysgu, mae popeth rydyn ni'n wneud ynghylch gwerthfawrogi a chefnogi pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr.

Mae teuluoedd a ffrindiau yn rhan bwysig o fywydau yr holl bobl rydyn ni'n eu cefnogi ac fe wyddon ni nad pobl sy'n berthynas trwy waed yn unig yw teulu. Rydyn ni'n diffinio teulu fel **'Person neu grŵp o bobl sy'n bwysig i berson, sy'n poeni amdany'n nhw ac sydd ynghlwm wrth eu bywydau'** er mwyn sicrhau ein bod yn gweld gwerth pob teulu, gan gynnwys pob amrywioldeb, a gweithio i'ch cynnwys i gyd ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

Ein gwaith

Mae oddeutu 1.4 miliwn o bobl ag anabledd dysgu yn y DU y dyddiau hyn. Gall pobl ag

anableddau dysgu wynebu nifer o anghydraddoldebau o fewn cymdeithas; rydyn ni'n gweithio gyda'r bwriad o wella bywydau a lleihau y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu.

I wneud hyn:

- Rydyn ni'n darparu gwasanaethau sy'n rhoi i blant ac oedolion y dewisiadau bywyd a'r rhyddid maen nhw'n dymuno eu cael, yn awr ac i'r dyfodol.
- Rydyn ni'n rhedeg prosiectau a rhaglenni i roi gwaith arloesol ar brawf er mwyn hyrwyddo cynhwysiant a hawliau.
- Rydyn ni'n ymchwilio i faterion, yn dylanwadu ar bolisi ac yn ymgychu am well dyfodol i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd.
- Rydyn ni'n darparu gwybodaeth a chynghor, gan gynnwys cynghor cyfreithiol i roi i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yr wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw i chwilio'u ffordd drwy'r system, datblygu gwytnwch ac osgoi cyrraedd argyfwng.
- Rydyn ni'n darparu Gwasanaeth Ewyllysiau ac Ymddiriedolaethau i'ch helpu chi i ddiogelu dyfodol ariannol yr aelod o'ch teulu.

Ein cennad, ein gweledigaethau a'n gwerthoedd

Ein cennad

Cennad Mencap yw trawsnewid agwedd cymdeithas tuag at anabledd dysgu a gwella ansawdd bywyd pobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Mae ein Cynllun Mawr ar gyfer y dyfodol wedi'i rannu yn bum blaenoriaeth. Y rhain yw'r meysydd mewn bywyd rydyn ni am gael y mwyaf o ddylanwad arnyn nhw: y meysydd ble mae'r angen mwyaf i weld newid er gwell:

Codi ymwybyddiaeth a newid agweddau

Gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ag anabledd dysgu y funud hon

Cefnogi cyfeillgarwch a pherthynas

Gwella iechyd pobl ag anabledd dysgu

Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant

Cyflogaeth

Ein gweledigaeth



Ein gweledigaeth yw byd ble mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu gwerthfawrogi fel pawb arall, ble mae pobl yn gwranddo arnyn nhw ac yn eu cynnwys. Ein her, ochr yn ochr â phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd a'u ffrindiau, yw gwneud i hyn ddigwydd.

Ar hyn o bryd mae pobl ag anabledd dysgu yn wynebu anghydraddoldebau ym mhob maes mewn bywyd. Mae arnon ni angen mynd i'r afael â'r materion trwy ymgyrchu diflino gyda'n gilydd gan drosglwyddo cefnogaeth a gwasanaethau o safon uchel i bobl sydd ein hangen.

Ein gwerthoedd

- Rydyn ni'n **Gynhwysol**. Mae pobl ag anabledd dysgu wrth galon popeth rydyn ni'n wneud.
- Rydyn ni'n **Ddibynadwy**. Pan fyddwn ni'n addo rhywbeth, dydyn ni ddim yn gadael pobl i lawr.
- Rydyn ni'n **Fawr ein gofal**. Rydyn ni'n trin pawb gyda pharch, caredigrwydd a chydaddoldeb.
- Rydyn ni'n **Heriol**. Pan fyddwn ni'n gweld nad yw pethau'n deg, fe fyddwn ni'n ymgyrchu nes byddwn ni'n gweld newid go iawn.
- Rydyn ni'n **Gadarnhaol**. Dydyn ni byth yn rhoi'r gorau i gredu mewn gwell dyfodol ac rydyn ni'n dathlu yr hyn rydyn ni'n falch ohono yn awr.